



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 3010 (Cy.261)

2007 No. 3010 (W.261)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru)
(Digolledu) 2007**

**The Bluetongue (Wales)
(Compensation) Order 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer digollediad sydd i'w dalu o ran anifail a effeithir gan y tafod glas (y dafod las), yr amheuir ei fod yn cael ei effeithio gan y tafod glas (y dafod las) neu a fu'n agored i gael ei heintio gan y tafod glas (y dafod las) ac a gigyddwyd o dan adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p. 22). Swm y digollediad yw gwerth yr anifail ar y farchnad yn union cyn iddo gael ei gigydda, pe na bai wedi ei effeithio felly, neu pe na bai amheuaeth ei fod wedi ei effeithio felly neu pe na bai wedi bod yn agored i gael ei heintio.

This Order makes provision for compensation to be paid in respect of an animal affected with, suspected of being affected with, or exposed to the infection of, bluetongue slaughtered under section 32 of the Animal Health Act 1981 (c. 22). The amount of compensation is the market value of the animal immediately before it is slaughtered, had it not been so affected, suspected of being affected or exposed to infection.

Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

A regulatory impact assessment has not been prepared for these Regulations as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

2007 Rhif 3010 (Cy.261)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru)
(Digolledu) 2007**

Gwnaed 22 Hydref 2007

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 23 Hydref 2007

Yn dod i rym 22 Hydref 2007

Â chymeradwyaeth y Trysorlys, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 32(3) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt (2).

Enwi, cychwyn a chymhwys

1. O ran y Gorchymyn hwn-

- (a) Ei enw yw Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007;
- (b) fe ddaw i rym ar 22 Hydref 2007; ac
- (c) mae'n gymwys o ran Cymru.

Digolledu

2.-(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn achosi i unrhyw anifail gael ei gigydda o dan adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 fel y'i cymhwysir i'r tafod glas gan erthygl 13 o Orchymyn y Tafod Glas 2003(3).

(2) Y digollediad sy'n daladwy gan Weinidogion Cymru o ran anifail yw gwerth yr anifail ar y farchnad yn union cyn iddo gael ei gigydda pe na bai wedi ei effeithio gan y tafod glas, pe na bai amheuaeth ei fod wedi ei effeithio gan y tafod glas neu pe na bai wedi bod yn agored i gael ei heintio gan y tafod glas.

(1) 1981 p. 22.

(2) Swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(3) O.S. 2003/326 (Cy.47).

2007 No. 3010 (W.261)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Bluetongue (Wales)
(Compensation) Order 2007**

Made 22 October 2007

*Laid before the National
Assembly for Wales* 23 October 2007

Coming into force 22 October 2007

With the approval of the Treasury, the Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by section 32(3) of the Animal Health Act 1981(1) and now vested in them(2).

Citation, commencement and application

1. This Order-

- (a) is entitled the Bluetongue (Wales) (Compensation) Order 2007;
- (b) comes into force on 22 October 2007;
- (c) applies in relation to Wales.

Compensation

2.-(1) Paragraph (2) applies where the Welsh Ministers cause any animal to be slaughtered under section 32 of the Animal Health Act 1981 as applied to bluetongue by article 13 of the Bluetongue Order 2003(3).

(2) The compensation payable by the Welsh Ministers in respect of the animal will be its market value immediately before it was slaughtered had it not been affected or suspected of being affected with, or had it not been exposed to the infection of, bluetongue.

(1) 1981 c. 22.

(2) Functions transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044. By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers.

(3) S.I. 2003/326 (W.47).

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "anifail" yw anifail sy'n cnoi cil.

(3) In this article, "animal" means a ruminating animal.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

22 Hydref 2007

22 October 2007

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2007 Rhif 3010 (Cy.261)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru)
(Digolledu) 2007

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 3010 (W.261)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Bluetongue (Wales)
(Compensation) Order 2007

©© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W173/11/07

ON